# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 15 Ionawr 2020

Amser: 08.50

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

**Ar 9 Ionawr 2020, penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o ddechrau'r cyfarfod hwn**

**1 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21: Sesiwn friffio breifat gydag ymgynghorydd arbenigol**

(08:50-09:00)

Dr Edward Jones, Darlithydd mewn Economeg, Prifysgol Bangor

**2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(09:00)

**3 Papur(au) i'w nodi**

(09:00)

**3.1 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru) - 7 Ionawr 2020**

(Tudalen 1)

**3.2 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) - 7 Ionawr 2020**

(Tudalennau 2 - 6)

**3.3 Llythyr gan y Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y Cyfarwyddyd Gweinidogol - Trefniadau pensiwn y GIG ar gyfer 2019/20 - 8 Ionawr2020**

(Tudalennau 7 - 8)

## 4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21: Sesiwn dystiolaeth 6

(09:00-09:40) (Tudalennau 9 - 29)

David Phillips, Cyfarwyddwr Cyswllt, y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

Guto Ifan, Cymrawd Ymchwil, Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd

Cian Sion, Cynorthwyydd Ymchwil, Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd

Michael Trickey, Uwch Gymrawd Ymchwil er Anrhydedd, rhaglen Dadansoddi Cyllidol Cymru, Prifysgol Caerdydd

Brîff Ymchwil

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21: Sesiwn dystiolaeth 7

(09:40-11:40) (Tudalennau 30 - 72)

Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru

Matt Wellington, Pennaeth Cyflawni'r Gyllideb, Llywodraeth Cymru

Brîff Ymchwil

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o'r cyfarfod ar 23 Ionawr 2020 yn ei gyfanrwydd

(11:40)

## 7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21: Trafod y dystiolaeth

(11:40-12:15)

## 8 Trafod y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad – 16 Rhagfyr 2019

(12:15–12:20) (Tudalennau 73 – 74)

Papur 1 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad – 16 Rhagfyr 2019

## 9 Trafod Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Diwygio) (Cymru) 2020

(12:20–12:30) (Tudalen 75)

Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Diwygio) (Cymru) 2020

Papur 2 – Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Diwygio) (Cymru) 2020 – Brîff cyfreithiol

**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Ein cyf/Our ref MA/VG/5935/19

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

7 Ionawr 2020

Annwyl Llyr,

**Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru) : Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Yn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Tachwedd, cadarnheais fy mod i wedi derbyn y ddau argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid. Mae newidiadau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u gwneud yn Nhabl A ac ym mharagraff 4.7 ar dudalen 23 mewn ymateb i Argymhelliad 2. Mae diwygiadau eraill wedi'u gwneud i egluro'r £30,000 o gostau y cyfeirir atynt yn Nhabl A ac ym mharagraff 4.7.

Rwyf wedi gwneud newid arall i adran ôl-weithredu yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ym mharagraff 4.18. Mae hyn yn dilyn trafodion Cyfnod 2 y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, lle ymrwymais i ddarparu adroddiad ar weithrediad y cynllun indemniad ar gyfer meddygon teulu a gefnogir gan y wladwriaeth (hy cynllun rhwymedigaethau'r dyfodol a'r cynllun rhwymedigaethau presennol) a fydd yn cynnwys safbwyntiau meddygon teulu a rhanddeiliaid eraill.

Mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig wedi cael eu gosod gerbron y Cynulliad heddiw. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon at Dr Dai Lloyd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Julie Morgan AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JM/5235/19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

7 Ionawr 2020

Annwyl Gadeiryddion,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu y cafodd Memorandwm Esboniadol wedi'i ddiweddaru ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol heddiw mewn perthynas â Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i'r Bil gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod trafodion Cyfnod 2. Mae hefyd yn darparu data a thystiolaeth newydd neu ychwanegol sydd wedi dod i law ers cyhoeddi'r Memorandwm Esboniadol gwreiddiol wrth gyflwyno'r Bil ym mis Mawrth 2019.

Cynhaliwyd Cyfnod 2 o'r broses ddeddfwriaethol rhwng 18 Medi a 24 Hydref 2019. Mae gwelliannau'r Llywodraeth mewn perthynas â dyletswydd i godi ymwybyddiaeth ac i gynnal adolygiad ar ôl gweithredu – ill dau’n argymhellion o Adroddiadau Pwyllgor Cyfnod Craffu 1 – wedi'u cytuno. Cytunwyd hefyd ar welliant y Llywodraeth i ddarparu sicrwydd mewn perthynas â chychwyn darpariaeth graidd y Bil: cael gwared ar yr amddiffyniad cosb resymol.

Bu datblygiadau o ran y data sylfaenol sydd ar gael ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol. Rwyf wedi ysgrifennu ar wahân ar y mater hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae’r prif newidiadau perthnasol i'w nodi yn y Memorandwm Esboniadol diwygiedig fel a ganlyn:

<u>Pennod 2 (Cymhwysedd Deddfwriaethol)</u>

Mae'r adran hon wedi'i diweddaru i roi rhagor o wybodaeth am ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o gydweddoldeb y Bil ag erthygl 8 a 9 o hawliau'r confensiwn a chyfraith yr Undeb Ewropeaidd (paragraff 2.3).

<u>Pennod 3 (Amcan a diben y polisi a'r effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael)</u>

- Mae'r adran 'Cyd-destun' wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r datblygiadau deddfwriaethol diweddaraf mewn perthynas â'r Bil (paragraffau 3.8 a 3.9).

- Yn yr adran 'Diben y Bil ac effaith y bwriedir iddo ei chael' darperir gwybodaeth am yr ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar safbwyntiau ar gosbi corfforol a gyhoeddwyd wedi i'r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno ym mis Mawrth. Cafodd y Pwyllgor wybod am yr ymchwil hwn pan gafodd ei gyhoeddi ym mis Mehefin. Er mwyn rhoi sylw i’r ymchwil hwn, rydym hefyd wedi diweddaru'r adrannau canlynol o'r Memorandwm Esboniadol – paragraffau xi a xii; 3.32, 3.56 - 3.59.

- Mae'r adran 'Cefnogi'r broses o weithredu'r Bil' wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu datblygiadau o ran darparu cymorth rhianta sy'n cynnwys diweddaru ein hymgyrch ‘Magu Plant. Rhoi amser iddo’ yr ydym yn bwriadu ei ehangu i gynnwys ystod oedran ehangach o rieni (paragraff 3.70); a darparu rhaglen Plant Iach Cymru ac adnoddau cysylltiedig (paragraff 3.72, 3.73 a 3.74).

<u>Pennod 4 (Ymgynghori)</u>

- 'Cymorth i rieni' – mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ein Grŵp Arbenigwyr Rhianta wedi'i darparu. Bydd y Grŵp yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried canlyniadau'r ymarfer mapio a gynhaliwyd gennym i archwilio graddau'r cymorth rhianta a ddarperir ar hyn o bryd ledled Cymru (paragraff 4.8).
- 'Yr effaith ar gyrff cyhoeddus' a 'Canllawiau/hyfforddiant i gefnogi gweithwyr proffesiynol rheng flaen' – darperir gwybodaeth yn yr adrannau hyn am y Grŵp Gweithredu Strategol a grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig (paragraff 4.13 - 4.18)
- Mae paragraff 4.15 yn adlewyrchu'r newidiadau i'r trefniadau cychwyn a wnaed i'r Bil gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod trafodion Cyfnod 2.

<u>Pennod 5 (Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth)</u>

Mae'r Tabl wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r pŵer yn y Bil fel y'i diwygiwyd ar ôl trafodion Cyfnod 2.

<u>Penodau 6 i 8 (Asesiad Effaith Rheoleiddiol)</u>

**Pennod 6: Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Mae'r adran hon wedi cael ei diweddaru gyda ffigurau diwygiedig ar gyfer costau gweinyddol sefydliadau er mwyn diweddaru'r canllawiau; costau y tu allan i'r llys, adolygiad ar ôl gweithredu (arolygon o ymwybyddiaeth ac agweddau) a chodi ymwybyddiaeth.

Mewn ymateb i argymhelliad 20 y Pwyllgor PPIA, mae'r adran 'Costau heb eu meintoli' wedi ei diweddaru gyda gwybodaeth bellach lle mae'r amcangyfrif gorau o gostau o'r fath bellach wedi ei ddarparu neu ceir eglurhad am pam nad ydym wedi gallu gwneud hyn.

Mae'r adran 'Tystiolaeth, rhagdybiaethau ac ansicrwydd allweddol' wedi'i diweddaru i ddarparu gwybodaeth am yr ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar agweddau tuag at gosbi corfforol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin.

**Pennod 8. Costau a Manteision**

Mae'r adrannau canlynol wedi'u diweddaru:

- 'Cyflwyniad i benodau 8 a 9' – mae paragraff 8.2 yn hysbysu'r darllenydd bod y Memorandwm wedi'i ddiweddaru i roi sylw i newidiadau ers cyflwyno'r Bil. Mae paragraff 8.9 yn rhoi gwybodaeth am y Grŵp Gweithredu Strategol a grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig
- 'Opsiwn 1: Gwneud Dim' – Mae'r costau ar gyfer rhaglenni Llywodraeth Cymru wedi'u diweddaru
- 'Opsiwn 2: Deddfu i ddiddymu amddiffyniad cosb resymol'
    - Mae paragraff 8.22 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y pŵer i wneud gorchmynion sydd wedi'i gynnwys yn y Bil.
    - Mae costau Llywodraeth Cymru ar gyfer codi ymwybyddiaeth wedi cael eu diweddaru i ystyried ymrwymiad y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymgyrch ddwys ym maes cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth (paragraff 8.28 – 8.32).
    - Mewn ymateb i argymhelliad 10 y Pwyllgor PPIA, mae adran newydd, 'Codi ymwybyddiaeth ymhlith plant', yn rhoi gwybodaeth am gynlluniau Llywodraeth Cymru a'r costau cysylltiedig ar gyfer codi ymwybyddiaeth ymhlith phlant.
    - 'Nodyn ar ddefnyddio data Seland Newydd i roi syniad o effaith bosibl y ddeddfwriaeth ar wasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a'r system gyfiawnder' - Mae hwn wedi'i ddiweddaru i roi rhagor o wybodaeth am y gwahaniaethau rhwng Seland Newydd a Chymru (paragraff 8.44).
    - 'Awdurdodau Lleol - Gwasanaethau Cymdeithasol ' – mewn ymateb i argymhelliad 4 y Pwyllgor Cyllid ac argymhelliad 6 adroddiadau Cyfnod 1 y Pwyllgor PPIA, darparwyd diweddariad ar ymdrechion i ddarparu data cywir ar gyfer llinell sylfaen o atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol ac amcangyfrif o raddfa'r cynnydd mewn atgyfeiriadau ar ôl cychwyn y ddeddfwriaeth.
    - Mewn ymateb i argymhelliad 5 o adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid, mae adran newydd am gostau y tu allan i'r llys wedi'i hychwanegu at yr asesiad effaith rheoleiddiol i roi'r amcangyfrif gorau o'r costau sy'n gysylltiedig â chynllun dargyfeirio.
    - Mewn ymateb i argymhelliad 6 y Pwyllgor Cyllid, mae'r adran 'Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi' yn rhoi dadansoddiad i ganfod a oes modd sefydlu cysylltiad rhwng atgyfeiriadau amcangyfrifedig at yr heddlu ac erlyniadau am droseddau a fyddai yn y gorffennol wedi cael eu cwmpasu gan yr amddiffyniad o gosb resymol (paragraffau 8.50-8.58).
    - Mae adran newydd, 'Cefnogi gweithredu', wedi'i hychwanegu ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â gweithredu. Mewn ymateb i argymhelliad 9 y Pwyllgor Cyllid, mae hyn yn cynnwys y costau sy'n gysylltiedig â'r adolygiad ar ôl gweithredu. Mewn ymateb i argymhelliad 8 yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor

Cyllid, mae'r adran hon yn darparu'r costau sy'n gysylltiedig â Grŵp Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru a grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig. Cytunais i ddarparu'r costau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r Grŵp Gweithredu ar wahân, fodd bynnag, er hwylustod y Pwyllgor, ac i alluogi'r gwariant hwn i gael ei weld o fewn cyd-destun cyffredinol costau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch gweithredu, rwy'n darparu'r wybodaeth hon yn yr RIA.

  - Mewn ymateb i argymhelliad 7 y Pwyllgor Cyllid, ychwanegwyd adran newydd, sef 'Costau trosiannol – diweddaru canllawiau a hyfforddiant' at yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i roi'r amcangyfrif gorau o'r costau sy'n gysylltiedig â sefydliadau'n diweddaru canllawiau ac yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff.
  - Mae'r 'Tabl crynhoi costau' wedi'i ddiweddaru i gymryd i ystyriaeth o gostau ychwanegol sydd wedi'u hychwanegu at yr RIA.

<u>Pennod 9 (Asesiadau Effaith Penodol)</u>

Mae'r crynodeb o'r asesiad effaith integredig a'r atodiadau sy'n ymwneud â hawliau plant, cydraddoldeb a'r Gymraeg wedi cael eu hadolygu a byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru cyn Cyfnod 3.

<u>Pennod 10 (Adolygu ar ôl gweithredu)</u>

Mae'r adran hon wedi cael ei diweddaru er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth am gynlluniau gweithredu Llywodraeth Cymru.

<u>Nodiadau Esboniadol</u>

Mae'r Nodiadau Esboniadol, sy'n cyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol diwygiedig, yn adlewyrchu'r gwelliannau i'r Bil a wnaed yng Nghyfnod 2.

<u>Atodiadau</u>

**Atodiad 4: Effeithiau posibl ar unigolion a sefydliadau**

Mae'r adrannau canlynol wedi'u diweddaru:

- 'Tystiolaeth gan blant' – sy'n rhoi rhagor o wybodaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar nifer y cyfryngwyr gweithredol cofrestredig (paragraff 29).
- 'CAFCASS Cymru' – sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am y modd y mae CAFCASS Cymru yn ystyried sut i fonitro niferoedd y cyhuddiadau o gosb gorfforol gan rieni yng nghyd-destun ymgyfreitha rhwng cyplau sydd wedi gwahanu (paragraffau 45 – 47).
- 'Effaith ar y broses' - sy'n rhoi teitl Canllawiau Statudol, Rhan 7, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (paragraff 55).
- 'Cyfrifoldebau athrawon ar ddiogelu' - sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am ddyletswyddau athrawon i roi gwybod am bryderon diogelu (paragraff 58).

**Atodiad 5: Cofnodion Troseddol a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Yn yr adran 'Gwiriadau manylach' darperir gwybodaeth bellach ar ddatgelu gwybodaeth ddi-gollfarn, gan gynnwys data sy'n ymwneud â gwiriadau DBS manylach (paragraffau 10, 11, 16, 18, 19 ac 20).

**Atodiad 6: Defnyddio data Seland Newydd fel esiampl ar gyfer amcangyfrifon yng Nghymru**

Yn yr adran 'Gwahaniaethau rhwng y ddeddfwriaeth yn Seland Newydd a'r hyn a gynigir yng Nghymru', darparwyd gwybodaeth ychwanegol am gyfnodau cychwyn yn Seland Newydd a Chymru (paragraff 9).

**Atodiad 8: Cynllun Gwaith Gweithredu Lefel uchel**

Mewn ymateb i argymhelliad 8 y Pwyllgor Cyllid, ychwanegwyd adran newydd, sy'n rhoi gwybodaeth am brif weithgareddau ein grŵp gweithredu strategol a grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig. Mae hefyd yn ymdrin â'n cynlluniau mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth. Mae hon yn ddogfen fyw y gall fod angen iddi esblygu wrth i'r gwaith ynghylch gweithredu fynd rhagddo.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau wrth i'r Mesur fynd drwy broses y Cynulliad.

Yn Gywir

**Julie Morgan AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Eitem 3.3

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

8 Ionawr 2020

Annwyl Gadeiryddion Pwyllgorau,

**Cyfarwyddyd Gweinidogol – Trefniadau Pensiwn y GIG ar gyfer 2019/20**

Fel y gwyddoch, ar 18 Rhagfyr 2019, cyhoeddodd y Prif Weinidog Gyfarwyddyd Gweinidogol i'r Ysgrifennydd Parhaol – y cyntaf o'i fath yng Nghymru ers datganoli.

Ysgrifennodd y Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn ein hysbysu o'r cyfarwyddyd a rhywfaint o'r cyd-destun ar gyfer cyhoeddi'r cyfarwyddyd. Cawsom hefyd gyngor manwl gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, dyddiedig 6 Ionawr 2020, yn nodi natur a phwrpas Cyfarwyddiadau Gweinidogol, yr awgrymir y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol eu trin yn ogystal â meysydd posibl y gallai Pwyllgorau'r Cynulliad ymchwilio iddynt.

Trafododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yr ohebiaeth hon yn ei gyfarfod ar 6 Ionawr 2020. O ystyried mai dyma'r Cyfarwyddyd Gweinidogol cyntaf a gyhoeddwyd yng Nghymru, cytunodd y Pwyllgor ei bod yn bwysig archwilio'r broses yn fwy manwl a holi'r Ysgrifennydd Parhaol, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, ar

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

ei rôl a gofyn am ei barn ar y trefniadau llywodraethu sy’n ymwneud â’r weithdrefn.

Mae’r Pwyllgor yn bwriadu defnyddio’r sesiwn hon i ganfod sut mae Cyfarwyddiadau Gweinidogol yn cael eu sbarduno a’r trothwyon sy’n gysylltiedig â phenderfyniadau yn cael eu huwchraddio, ac yn yr achos hwn, y cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a Whitehall. Rydym hefyd am ganfod a wnaed unrhyw waith ymgynghori gyda Cyllid a Thollau EM naill ai ar lefel Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru neu’r ddwy. Byddwn hefyd yn achub ar y cyfle i archwilio’r modd yr ymdrinnir â Chyfarwyddiadau Gweinidogol yn y dyfodol a chanfod a oes unrhyw wersi i’w dysgu o’r achlysur hwn.

Cytunodd y Pwyllgor i gynnal sesiwn graffu gyda’r Ysgrifennydd Parhaol i drafod y materion hyn ddechrau mis Chwefror a bydd hefyd yn ysgrifennu at Cyllid a Thollau EM i ofyn am eu barn ar y Cyfarwyddyd Gweinidogol diweddar i ganfod a yw’r dull a gymerir yn cydymffurfio â rheolau a deddfwriaeth treth.

Fodd bynnag, o gofio nad yw cylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ymestyn i faterion polisi neu gyllidebol, gofynnaf i chi ystyried craffu ar y Gweinidogion perthnasol ar oblygiadau polisi a chyllidebol y Cyfarwyddyd Gweinidogol fel rhan o’ch sesiynau craffu cyllideb sydd ar ddod.

Yn y cyd-destun hwn, efallai y bydd gennych ddiddordeb yn ein gwaith diweddar ar Wasanaethau y Tu Allan i Oriau lle nodwyd pryderon am effaith statws Treth a Chyflogaeth Meddygon Teulu ar Wasanaethau y Tu Allan i Oriau a’r costau annisgwyl i Fyrddau Iechyd sy’n gysylltiedig â hyn. Nodir ein canfyddiadau yn ein hadroddiad, Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau.

Hyderaf y bydd hyn o ddefnydd i chi.

Yn gywir,



**Darren Millar AC**
**Cadeirydd (Dros Dro)**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**

Eitem 8

National Assembly for Wales
**Committee on Assembly Electoral Reform**

Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

16 Rhagfyr 2019

Annwyl Cadeirydd,

**Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**

Fel y gwyddoch, cafodd y **Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad** ei sefydlu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Medi 2019. Ei gylch gwaith yw archwilio argymhellion y **Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**. Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch gwahodd i rannu eich barn ar y goblygiadau posibl i bwyllgorau'r Cynulliad a allai ddeillio o unrhyw newid ym maint y Cynulliad.

Yn benodol, byddem yn croesawu sylwadau eich Pwyllgor ar y materion a ganlyn:

- Pa un a yw maint cyfredol y Cynulliad wedi arwain at unrhyw oblygiadau neu gyfyngiadau o ran gwaith eich Pwyllgor neu'r modd yr ydych yn mynd ati i wneud gwaith craffu ar bolisïau, deddfwriaeth a materion ariannol yng nghyd-destun y materion hynny sydd o fewn eich cylch gwaith.
- Sut y gallai unrhyw newidiadau diweddar neu ddisgwyliedig i bwerau neu gyfrifoldebau'r Cynulliad, neu'r cyd-destun cyfansoddiadol ehangach, effeithio ar gylch gwaith eich Pwyllgor neu'r modd yr ydych yn ymgymryd â'ch rôl.
- Pa un a allai cynnydd ym maint y Cynulliad arwain at unrhyw oblygiadau o ran gwaith pwyllgorau'r Cynulliad, gan gynnwys y gwasanaethau cymorth y maent yn eu cael.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDiwygio@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddReform@assembly.wales,
0300 200 6565

Byddem hefyd yn croesawu gwybodaeth am sut y mae eich Pwyllgor yn asesu effaith ei waith craffu, ac enghreifftiau o waith craffu effeithiol neu enghreifftiau o gyfleoedd a gollwyd. Byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb erbyn **dydd Llun 27 Ionawr 2019.**

Byddaf yn gwneud datganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 8 Ionawr 2020 er mwyn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor. Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau am waith y Pwyllgor, neu os ydych o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i chi gwrdd â rhywun i drafod y materion hyn, cysylltwch â Chlerc y Pwyllgor, Helen Finlayson drwy anfon neges e-bost at **SeneddDiwygio@cynulliad.cymru** neu drwy roi galwad ar 0300 200 6341.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon